# Nid yw trosedd casineb yn iawn.

# Riportiwch ef.



RHIF DI-ARGYFWNG 24 AWR YR HEDDLU
FFONIWCH 999 MEWN ARGYFWNG BOB AMSER
101
POLICE 24 HOUR NON-EMERGENCY NUMBER
IN AN EMERGENCY ALWAYS CALL 999

Cefnogir gan **Lywodraeth Cymru**
Supported by **Welsh Government**

#troseddaucasineb www.report-it.org.uk




## Gall y canlynol fod yn droseddau casineb:

- Bwrw a dyrnu
- Rhywun yn gwneud hwyl am eich pen bwlio
- Rhywun yn codi ofn arnoch
- Rhywun yn dwyn neu’n difrodi eich pethau personol



## Gall trosedd casineb ddigwydd i rywun oherwydd:

- Eich hil
- Eich crefydd neu’ch cred
- Rydych chi’n ystyried eich hun fel dyn neu fenyw, sut bynnag y cawsoch eich geni
- Pwy rydych chi’n caru
- Eich anabledd



Dylech ddweud wrth yr heddlu os oes trosedd casineb yn digwydd i chi.
Dylech ddweud wrth yr heddlu os ydych chi’n gweld trosedd yn digwydd.
Dylech ddweud wrth yr heddlu os ydych chi’n adnabod rhywun sydd wedi dioddef trosedd casineb.




Os nad ydych chi eisiau dweud wrth yr heddlu, gallwch siarad â phobl eraill megis Cymorth i Ddioddefwyr neu grwpiau rydych chi’n mynd iddynt.








## Sut i ddweud wrth yr heddlu am drosedd casineb:

- Gallwch ymweld â'ch gorsaf heddlu leol
- Gallwch siarad â Swyddog Heddlu neu SCCH.
- Mewn argyfwng, galwch 999.
- Os nad yw'n argyfwng, gallwch alw 101.
- Gallwch alw'r Llinell Cymorth i Ddioddefwyr ar 0300 30 31 982 sydd am ddim ac ar agor trwy'r amser.
- Gallwch ddweud wrth yr heddlu am drosedd casineb ar report-it.org.uk
- Gallwch ddweud wrth Cymorth i Ddioddefwyr am drosedd casineb ar www.reporthate.victimsupport.org.uk
- Gallwch gysylltu â grwpiau cymorth yn eich ardal leol – mae rhestr o grwpiau cymorth ar gael ar www.report-it.org.uk



## Beth sy'n digwydd pan rydych chi'n riportio trosedd casineb?

- Pan fyddwch chi'n riportio trosedd casineb, bydd yr heddlu'n ymchwilio i'r hyn sydd wedi digwydd.
- Bydd yr hyn rydych chi'n dweud yn cael ei gymryd o ddifrif.
- Bydd yr heddlu'n cefnogi unrhyw un sy'n dweud wrthyn nhw am drosedd casineb a byddant yn gwneud eu gorau i wneud i chi deimlo'n ddiogel.

## Os oes trosedd casineb yn digwydd i chi neu rywun arall:

- Mewn argyfwng, galwch 999 bob tro.
- Ewch i le diogel mor fuan â phosibl gwnewch cymaint o sŵn â phosibl er mwyn cael help.
- Os ydych chi'n gweld trosedd casineb yn digwydd, peidiwch â rhoi eich hun mewn perygl.
- Dywedwch wrth yr heddlu beth sydd wedi digwydd bob tro.
- Os allwch chi, ysgrifennwch bob dim rydych chi'n cofio am beth ddigwyddodd, dyddiad ac amser y digwyddiad, sut oedd y person yn edrych os nad ydych chi'n ei adnabod, a beth ddywedon nhw neu beth wnaethon nhw.

#troseddaucasineb www.report-it.org.uk

Print Ref: 2099-15